

Darganfod: Grawys 2019

Wrth i ni barhau i droedio llwybrau'r Grawys tua'r Pasg cawn ein tywys gan **Parch Evan Morgan**, Llywydd y Gymdeithasfa yn y De, i fyfyrion am yr heriau a ddaw i'n rhan.

DARGANFYDDIAD ANODD

Un o bleserau bywyd yw darganfod rhywbeth newydd. Gall fod yn ddarganfod tŷ bwyta newydd yn annisgwyl, neu pan ar wyliau, taro ar olygfa odidog ar ôl crwydro oddi ar y llwybr twristaidd arferol. Erbyn heddiw, yn sgîl cyfryngau cymdeithasol, gall rhywun ddarganfod hen gyfaill ysgol ac ail gydio mewn perthynas. Gellir dod o hyd i berthnasau nad oeddem yn ymwybodol o'u bodolaeth hyd yn oed.

Cyfres o ddarganfyddiadau yw'r weinidogaeth yn ei hanfod. Dod i adnabod eich praid drwy sgwrsio a holi, darganfod beth sy'n eu poeni a beth sy'n peri iddyn nhw lawenhau, beth sy'n bwysig iddynt a hanes eu bywydau.

Yn y weinidogaeth hefyd daw rhywun i ddarganfod caredigrwydd a darganfod Duw yn gweithio. Y sbarc o 'dduwod' sydd i'w weld yn y nyrs sy'n trin y claf; yn y Samariad hwnnw sy'n cynnig cynorthwyo i gyd-deithiwr gyda'i fagiâu trymion – y gweithredoedd bychain hynny sy'n ein cyffwrdd ac yn adfer ein ffydd yn ein cyd-ddyn ac yn ein Creawdwr.

Gall fod yn anodd cofio hyn ar brydiad "wrth weld yr annuwiol yn llwyddo" fel petae ond mae'r daioni hwn y tu mewn i bob un a'n gwaith ni, fel pobl Dduw, yw ei ddarganfod, ei feithrin a chaniatáu iddo ffynnu a thyfu. Gofynnwyd i'r meistr *renaissance*, Michaelangelo, sut oedd yn gallu creu cerfluniau mor gywain a manwl o'r talpiau mawrion di- siâp o farmor a ddoi i'w ddwylo. Ei ateb oedd "Every block of stone has a statue inside it and the task of the sculptor is to discover it."

Ar un llaw clywn yn ddyddiol ymfrost rhai gwleidyddion taw ein economi ni yw'r pumed economi fwyaf yn y byd ond ar y llaw arall rydym yn ymwybodol fod dibyniaeth ar fanciau bywyd wedi cynyddu'n aruthrol, fod nifer y digartref yn ein gwlad wedi codi'n frawychus a bod y canran o blant sy'n byw mewn tldi yn uwch mewn rhannau o Gymru na gweddill y DU. Rhaid



Yna dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, "Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i. Oberwydd pwy bynnag a fyn gadw ei fywyd, fe'i cyll, ond pwy bynnag a gyll ei fywyd er fy mwyn i, fe'i caiff. Pa elw a gaiff rhywun os ennill yr holl fyd a fforffedu ei fywyd? Neu beth a rydd rhywun yn gyfnewid am ei fywyd? Oberwydd y mae Mab y Dyn ar ddyfod yng ngogoniant ei Dad gyda'i angylion, ac yna fe dâl i bob un yn ôl ei ymddygiad.

Mathew 18: 24-27

cwestiynu felly beth yw blaenoriaethau'r rhai sy'n gyfrifol am arwain a rheoli ein gwlad.

Mae Michelle Obama yn ei llyfr gwych *Becoming* yn sôn mai un o'r pethau mwyaf

a gollwyd ganddyn nhw fel teulu wrth symud o Chicago i'r Tŷ Gwyn oedd cefnogaeth a chynhesrwydd y gymuned ysbrydol yr oedden nhw'n rhan ohoni yn yr eglwys yn Chicago. Ond yna fe ddarganfyddodd hi gymuned ysbrydol ehangach drwy ddarllen y llu o lythyrau a anfonwyd atyn nhw fel teulu yn dweud "we are praying for you not to be hurt or killed" gan fod hynny, wrth gwrs, yn fgythyad real iawn ar ddechrau arlywyddiaeth ei gŵr. Darganfyddodd "the protection of millions" a dod o hyd i gymdeithas newydd a fu'n fodd eu cynnal yn yr wyth mlynedd y buont yn y Tŷ Gwyn.

Ar yr adeg yma o'r Grawys sy'n ein harwain at Y Pasg dylem ystyried beth yr ydym am ei ddarganfod ynom ni ein hunain, yn ein cymdeithas ac yn ein Gwaredwr. "There is no value in digging shallow wells in a hundred places, decide on one place and dig deep." Mae angen i ni gloddio yn ddyfn yn ein henaid i ddarganfod Crist o'r newydd er mwyn ein sbarduno i weithredu gan gofio mai ni yw ei ddwylo a'i draed Ef yn ein byd. Ein cyfrifoldeb yw dangos ei gariad Ef drwy ein gweithredoedd a'n geiriau fel bod goleuni'r Crist atgyfodedig yn cael ei amlygu'n llachar i eraill yn ein cymdeithas.

Codi'r groes

"Fel nad yw'r Crist ddim ond yn Grist yn ei ddiodeffaint ac fel un sy'n cael ei wrthod, felly nid yw'r disgybl dim ond yn ddisgybl yn ei ddiodeffaint a'i wrthodiad yntau, a thrwy hynny yn rhannu yn y croeshoeliad."

*Dietrich Bonhoeffer
Diwinydd a Merthyr*

Llun: St. Christopher church in Wrocław
Tomasz Kmitya-Skarsgård CC-BY-SA-4.0

